E-lawlyfr 2

**CYFLWYNIAD I SYNIADAU GWLEIDYDDOL**

Uned 3: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth

CYSYNIADAU A DAMCANIAETHAU GWLEIDYDDOL

**Adnodd 6**

# *Sosialaeth: Ffrydiau Amrywiol*

## Llawlyfr Gwaith

# LLAWLYFR GWAITH

## TASG 1

Mae'r tabl isod yn rhestru enwau nifer o feddylwyr sosialaidd pwysig. Gan weithio ar eich pen eich hun, neu fel rhan o grŵp, defnyddiwch y rhyngrwyd er mwyn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r unigolion hyn.

Ar sail y wybodaeth fydd gennych, ceisiwch lunio bywgraffiad byr (e.e. dyddiadau bywyd, gwlad enedigol, manylion gyrfa ayyb) ar gyfer pob meddyliwr a hefyd crynodeb o rai o'u syniadau gwleidyddol mwyaf pwysig.

| ENW | BYWGRAFFIAD BYR | CRYNODEB O SAFBWYNTIAU PWYSIG |
|---|---|---|
| Robert Owen | | |
| Karl Marx | | |
| Eduard Bernstein | | |
| Vladimir Ilich Lenin | | |
| Antonio Gramsci | | |
| R. H. Tawney | | |

**TASG 2**

Lluniwch baragraff estynedig sy'n egluro beth yw prif nodweddion y feirniadaeth Farcsaidd o gyfalafiaeth.

**TASG 3**

Lluniwch baragraff sy'n amlinellu rhai o'r prif wahaniaethau rhwng y gymdeithas gomiwnyddol ddelfrydol a gafodd ei darogan gan Karl Marx a'r cyfundrefnau comiwnyddol a welwyd ar waith mewn llefydd megis yr Undeb Sofietaidd.

**TASG 4**

Yn y tabl isod nodwch bwyntiau y gellid eu cynnwys mewn traethawd byr sy'n ceisio ateb y cwestiwn canlynol:

I ba raddau y mae syniadau Karl Marx yn dal i fod yn berthnasol heddiw?

| **Mae syniadau Karl Marx yn dal i fod yn berthnasol heddiw oherwydd ...** | **Nid yw syniadau Karl Marx yn dal i fod yn berthnasol heddiw oherwydd ...** |
|---|---|
| | |

**TASG 5**

Yn y tabl isod nodwch rai o'r prif wahaniaethau rhwng y math o safbwyntiau a gaiff eu harddel gan Farcswyr a Democratiaid Cymdeithasol.

Wrth gwblhau'r dasg yma, meddyliwch yn benodol am yr anghydweld rhwng y ddwy garfan ynglŷn â'r materion canlynol:

: Pa fath o *ddulliau* y dylai sosialwyr eu harddel?
: Pa fath o *amcanion* y dylai sosialwyr eu cyrchu?

| **MARCSWYR** | **DEMOCRATIAID CYMDEITHASOL** |
|---|---|
| **Dulliau:** | **Dulliau:** |
| **Amcanion:** | **Amcanion:** |

**TASG 6**

Gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennych yn y tabl uchod, ond hefyd gan wneud ychydig o ymchwil pellach, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn canlynol:

> Cloriannwch yn feirniadol gryfderau a gwendidau y safbwyntiau y mae Marcswyr a Democratiaid Cymdeithasol wedi'u harddel dros y blynyddoedd.

**TASG 7**

Gan ddwyn ynghyd y wybodaeth sydd gennych bellach ynglŷn â phrif nodweddion sosialaeth, ceisiwch lunio traethawd sy'n ateb y cwestiwn canlynol:

> 'Hanfod sosialaeth yw cred yn yr angen i greu cymdeithas fwy cydradd.' Trafodwch.